Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/ Wrexham County Borough Council
Neuadd y Dref, Wrecsam. LL11 1AY
Guildhall, Wrexham. LL11 1AY
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk
Cyfnewid Testun/Text Relay: 18001

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our ref	JM/RW/ALNET2018
Dyddiad/Date	23 Medi 2021
Gofynner am/Ask for	Mrs Joanne Moore
Rhif Cyswllt/Contact No	01978 295492
E-bost/E-mail	sen@wrexham.gov.uk

Trefniadau Newydd ar Gyfer Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Gydag Anghenion Addysgol Arbennig

Annwyl Riant / Ofalwr

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Fel yr ydym wedi rhannu gyda chi eisoes, mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru yn newid.

Yn Nhymor yr Haf, rhoddodd Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg, y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad graddol y system ADY newydd. Er y cydnabyddir bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae wedi dod yn amlwg na ellir anwybyddu effaith y pandemig. Rhannodd fod angen mwy o le ac amser i reoli a chynllunio ar gyfer agweddau ar y rhaglen ddiwygio bwysig hon er mwyn sicrhau y cyflawnir trefniadau newydd yn llwyddiannus a bod plant yng Nghymru'r cael y gorau.

Written Statement: Additional Learning Needs and Educational Tribunal Act 2018 Implementation (14 July 2021) | GOV.WALES

Gyda hyn mewn cof, bydd y gwaith o weithredu'r system ADY ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn digwydd mewn trefn benodol.

O'r 1af Medi 2021 bydd y system ADY yn cychwyn yn benodol ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac is a chânt eu **hadnabod o'r newydd fel** bod ag ADY (hynny yw, y rhai sydd heb eu hadnabod eisoes i fod ag anghenion addysgol arbennig (AAA), neu nad ydynt yn aros neu yn ymgymryd ag asesiad AAA).

Mae hyn yn cynnwys plant sydd:

- wedi'i gofrestru mewn lleoliadau a gynhelir
- wedi cofrestru mewn lleoliadau annibynnol
- plant wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.
We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.

- plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn lleoliad - fel plant ifanc nad ydynt eto'n mynychu lleoliadau blwyddyn gynnar; plant sy'n cael eu haddysgu gartref; Disgybl sy'n derbyn Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

O'r 1af Ionawr 2022, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac iau sy'n mynychu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion) ym mlynyddoedd Meithrin 1 a 2, (M1 a M2) a Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 ac sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu blynyddoedd cynnar / gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu ysgol / gweithredu ysgol a mwy

Nodir:

- **Ni fydd** plant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig trwy ddatganiad; sy'n disgwyl, neu yn y broses o gynnal asesiad AAA; a'r sawl sydd dros oedran ysgol gorfodol, yn cael eu cynnal ym mlwyddyn gyntaf y gweithrediad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i rieni a theuluoedd yn Nhymor yr Hydref

Os hoffech chi unrhyw wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgol eich plentyn; Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol sefydliad blynyddoedd cynnar eich plentyn, neu cysylltwch â SNAP Cymru sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol yn rhad ac am ddim i rieni drwy ymweld â: www.snapcymru.org neu ffoniwch eu llinell gymorth ar: 0808 801 0608

Gobeithio bydd y wybodaeth yn y llythyr hwn yn galonogol i chi. Bydd ysgolion ac asiantaethau eraill yn parhau i weithio gyda'i gilydd, i fyfyrio ar ganllawiau a pharhau â'r gwaith paratoi i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n dysgwyr.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n rhoi cyflwyniad i'r system ADY newydd bellach ar gael ar blatfform Hwb Llywodraeth Cymru. Dyma erthygl newyddion Hwb yn cyflwyno'r cwrs, sydd ar dudalen hafan Hwb ar hyn o bryd:
https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b

A linc i'r cwrs ei hun
https://hwb.gov.wales/repository/publishers/9fb2afc9-6408-4aa3-9474-3c745006535b/resource/c8033263-aaa0-42fc-9511-ab7d33bd8084/cy

Gwefan Llywodraeth Cymru
https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig

Yours sincerely

Karen Evans
Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
Chief Officer Education & Early Intervention